**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol

**Cyfarfod Aml-leoliad – Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|
| P Lloyd | M W Locke |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Tom Price | Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd |
| Lindsey Stock | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

## 29 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Gweithdrefn Is-bwyllgorau Trwyddedu Statudol (er gwybodaeth)

Cyflwynodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Pwyllgor y Weithdrefn Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol, er gwybodaeth.

## 31 Deddf Trwyddedu 2003 - Is-adran 100 - Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro - Cinema & Co., 17-19 Castle Street, Abertawe SA1 1JF

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Adroddodd y Swyddog Trwyddedu ar y cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro mewn perthynas â Cinema & Co., 17-19, Castle Street, Abertawe SA1 1JF.

Cyfeiriodd at yr amcanion trwyddedu, ystyriaethau polisi a'r arweiniad gan y Swyddfa Gartref. Cyfeiriwyd yn benodol at yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN) yn Atodiad A, a'r gwrthwynebiad gan y Personau Perthnasol yn Atodiad B.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd a Thai Sector Preifat (Personau Perthnasol), fod y gwrthwynebiad i'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN) a

gyflwynwyd ar 23 Tachwedd 2022 ar gyfer 8 Rhagfyr 2022 wedi'i dynnu'n ôl ar 29 Tachwedd, 2022.

Tynnwyd y digwyddiad yn ôl gan nad oedd yn ymddangos bod y digwyddiad y gwnaed cais amdano yr un fath â'r digwyddiad a welwyd gan Swyddogion ar 4 Tachwedd 2022.

Bydd swyddogion yn asesu'r lefelau sŵn o'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar 8 Rhagfyr 2022 ac yn trefnu ymweliad safle o fewn y 14 diwrnod nesaf i drafod y digwyddiadau a gynhelir yn yr eiddo mewn perthynas â Niwsans Sŵn Statudol.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor **gymeradwyo'r** hysbysiad digwyddiad dros dro.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15am.

**Cadeirydd**